



Lynette Lovell
Prif Swyddog Addysg Dros Dro
Interim Chief Education Officer

Atebwch os gwelwch yn dda /Please reply to:

Gwasanaeth Ysgolion / Schools Service
Cyngor Sir Powys / Powys County Council
Neuadd y Sir / County Hall
Llandrindod Wells
Powys
LD1 5LG

Ein cyf / Our ref: ALNET/P/C
Dyddiad / Date: 6 Medi 2021
6 September 2021

Trefniant newydd ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau

Annwyl Riant/Gofalwyr,

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), 2018

Mae'r system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau yng Nghymru yn newid. Mae system newydd fwy hyblyg ac ymatebol o ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau yn cael ei gweithredu. Bydd yn sicrhau system addysg gwbl gynhwysol ar gyfer dysgwyr Cymru.

Bydd y system newydd yn sicrhau:

- bod anghenion yn cael eu nodi'n gynnar, yn cael sylw cyflym a bod pob dysgwr yn cael ei gefnogi i gyrraedd ei botensial.
- bod ein gweithwyr proffesiynol yn fedrus ac yn hyderus wrth nodi anghenion a defnyddio strategaethau i helpu dysgwyr i oresgyn eu rhwystrau i ddysgu.
- mai'r dysgwr sydd wrth galon popeth a wnawn. Byddwn yn gofalu eu bod nhw, eu rhieni a'u gofalwyr yn bartneriaid cyfartal yn eu dysgu. (Dulliau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn)
- O fis Medi 2021 byddwn yn cyflwyno'r system newydd yn raddol dros y blynyddoedd nesaf (2021 -2024). Dyma'r negeseuon hanfodol am y newidiadau hyn a'r hyn y gallant ei olygu i chi a'ch plentyn.

Negeseuon Allweddol

- Bydd y term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn disodli'r termau Anghenion Addysgol

New arrangement for children and young people with special educational needs and disabilities

Dear Parent/Carers,

RE. Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act, 2018

The system for supporting children and young people with special educational needs and disability in Wales is changing. A new more flexible and responsive system of meeting the needs of children and young people with special educational needs or disabilities is being implemented, ensuring a fully inclusive education system for the learners of Wales.

The new system will ensure:

- needs are identified early, addressed quickly and all learners are supported to reach their potential.
- our professionals are skilled and confident in identifying needs and deploying strategies to help learners overcome their barriers to learning.
- that the learner is at the centre of everything we do and that they and their parents and carers are equal partners in their learning. (Person Centred Approach)
- From September 2021 the new system will be brought in gradually over the next few years (2021 -2024). Here are some of the key messages about these changes and what they may mean for you and your child.

Key Messages

- The term Additional Learning Needs (ALN) will replace the terms Special Educational

Arbennig (AAA) ac Anawsterau ac Anabledau Dysgu (LDD)

- Bydd Cydgysylltwyr Anghenion Addysgol Arbennig (SENCos) mewn ysgolion bellach yn cael eu galw'n Gydgysylltwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Bydd y Cod ADY gorfodol ar gyfer y system newydd yn cynnwys plant a phobl ifanc 0-25 oed. Mae hyn yn golygu y bydd gan y blynyddoedd cynnar a cholegau addysg bellach ddyletswyddau o dan y Ddeddf. Ond nid yw hyn yn cynnwys addysg uwch na phrentisiaethau.
- Mae'r system raddedig bresennol o Weithredu gan y Blynyddoedd Cynnar gan yr Ysgol, Gweithredu'r Blynyddoedd Cynnar/yr Ysgol a Mwy, a Datganiadau yn cael ei disodli dros y tair blynedd nesaf. Bydd gan blant a phobl ifanc ag angen dysgu ychwanegol a nodwyd sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol Gynllun Datblygu Unigol (IDP). Bydd yr IDP yn disodli'r holl gynlluniau unigol eraill. Bydd awdurdodau lleol yn cynnal Cynlluniau Datblygu Unigol i blant dan oedran ysgol gorfodol, e.e. yn y blynyddoedd cynnar
- Ysgolion fydd yn cynnal y rhan fwyaf o Gynlluniau Datblygu Unigol, ond gall yr Awdurdod Lleol gynnal IDP ar gyfer y dysgwyr hynny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.
- Efallai y ceir disgyblion yr ystyrir bod ganddynt AAA/ADY dan y system bresennol, ond ni ystyrir bod ganddynt ADY o dan y system newydd. Mae hyn oherwydd y gellir diwallu eu hanghenion gyda darpariaeth dysgu cyffredinol (ULP). Nid yw hyn yn golygu na fyddant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Ni fydd hyn yn cael effaith andwyol ar sut y caiff ysgolion eu hariannu ym Mhowys.
- Trwy'r Ddeddf mae disgwyl y bydd pob partner fel Addysg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cydweithio i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY.
- Bydd mwy o gyfleoedd i blant, pobl ifanc, rhieni a gofawyr gyfrannu at greu a chynnal Cynlluniau Datblygu Unigol drwy Gynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.
- Disgwylir y bydd cydweithio agosach yn helpu i osgoi anghytuno.
- Byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau y darperir darpariaeth ddysgu ychwanegol yn y Gymraeg, os bydd angen

Needs (SEN) and Learning Difficulties and Disabilities (LDD)

- Special Educational Needs Coordinators (SENCos) in schools will now be called Additional Learning Needs Coordinators (ALNCos)
- The mandatory ALN Code for the new system will cover children and young people aged 0-25. This means that early years and further education colleges will have duties under the Act, but this does not include higher education or apprenticeships.
- The current graduated system of Early Years/School Action, Early Years/School Action Plus and Statements is being replaced over the course of the next three years. All children and young people with an identified additional learning need (ALN) that requires additional learning provision (ALP) will have an Individual Development Plan (IDP). The IDP will replace all other individual plans. IDPs for children under compulsory school age, who require them, i.e. in the early years will be maintained by local authorities.
- Most Individual Development Plans will be maintained by the school but may also be maintained by the Local Authority for those learners with the most complex needs.
- There may be some pupils that are considered to have SEN/ALN under the current system but will not be considered to have ALN under the new system as their needs can be met with universal learning provision (ULP). This does not mean that they will not get the support they need. This will not adversely affect the way schools are funded in Powys.
- The Act expects that all partners such as Education, Health and Social Care will work in collaboration to support children and young people with ALN.
- There will be increased opportunities for children, young people, parents, and carers to contribute to the creation and maintenance of Individual Development Plans through Person Centred Planning.
- It is expected that working together more closely should help to avoid disagreements.
- All reasonable steps will be taken to ensure additional learning provision will be provided in Welsh, if required



Gwybodaeth Ychwanegol

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio cwrs e-ddysgu rhyngweithiol sy'n cyflwyno'r system ADY newydd ac mae bellach ar gael ar lwyfan Hwb Llywodraeth Cymru. Dyma erthygl newyddion Hwb sy'n cyflwyno'r cwrs, sydd ar hafan Hwb ar hyn o bryd:

<https://hwb.gov.wales/news/articles/20686965-8669-40ac-bdc5-599f4a4dfe8b> ac mae rhagor o wybodaeth am ADY ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: [Anghenion dysgu ychwanegol \(anghenion addysgol arbennig\) | Is-bwnc | LLYW.CYMRU](#)

Cewch weld y cwrs e-ddysgu drwy ddefnyddio'r ddolen hon:

[Repository - Hwb \(gov.wales\)](#)

Mae SNAP Cymru'n darparu ein gwasanaeth partneriaeth rhieni; maent yn cynnig cyngor ac arweiniad, datrys anghydfodau a chymorth eiriolaeth i blant a phobl ifanc. Dyma eu gwefan: www.snapcymru.org

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, edrychwch ar wefan ysgol eich plentyn neu Wefan Cyngor Sir Powys [Anghenion Dysgu Ychwanegol - Powys](#) neu siaradwch â Chyd-gysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol eich ysgol.

Rydym wedi lansio ein llwyfan gynhwysiant newydd dan enw Tyfu. Trwy hon cewch fynediad at Gynlluniau Dysgu Cynhwysol ac IDPs os ydynt gan eich plentyn.

Bydd taflenni gwybodaeth ar gael i ysgolion eu dosbarthu i'r rhieni/gofalwyr hynny sy'n gofyn amdanynt. Os hoffech wybodaeth neu gyngor ychwanegol, mae croeso i chi gysylltu â ni trwy anfon e-bost i: tyfu@powys.gov.uk.

Additional Information

Welsh Government have produced an interactive e-learning course introducing the new ALN system and is now available on the Welsh Government's Hwb platform. Here is a Hwb news article introducing the course, which is currently on the Hwb homepage:

<https://hwb.gov.wales/news/articles/20686965-8669-40ac-bdc5-599f4a4dfe8b> and further information on ALN can be found on the Welsh Government website: <https://gov.wales/additional-learning-needs-special-educational-needs>.

The e-learning course can be found using this link:

<https://hwb.gov.wales/repository/publishers/9fb2afc9-6408-4aa3-9474-3c745006535b/resource/c8033263-aaa0-42fc-9511-ab7d33bd8084/en>

Our parent partnership service is provided by SNAP Cymru; they offer advice and guidance, disagreement resolution and advocacy support for children and young people, their website is: www.snapcymru.org

If you require further information, you can look at your child's school website or Powys County Council Website (www.powys.gov.uk/ALN) or speak with your schools ALNCo.

We have launched our new inclusion platform called Tyfu. This is where you will be able to access Universal Learning Plans and IDPs if your child has them.

Information leaflets will be made available for schools to distribute to those parents/carers that require them. If you would like any additional information or advice, please contact us at tyfu@powys.gov.uk.

Yn gywir / Yours sincerely,
Lynette Lovell